# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 10

CYFFREDINOL

### 174 Rheoliadau o dan y Ddeddf hon

(1) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn arferadwy drwy offeryn statudol.

(2) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer ardaloedd gwahanol.

(3) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol neu ddarfodol neu ddarpariaeth arbed; ond nid yw'r is-adran hon yn gymwys i'r pwerau o dan—

(a) adran 72, 74, 80 na 83 (cyd-bwyllgorau corfforedig; gweler adran 83 ynglŷn â hynny);

(b) adran 124, 131 na 147 (uno ac ailstrwythuro; gweler adran 147 ynglŷn â hynny).

(4) Ni chaniateir gwneud offeryn statudol y mae'r is-adran hon yn gymwys iddo oni fo drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Senedd Cymru, ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

(5) Mae is-adran (4) yn gymwys i offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a ganlyn—

(a) adran 28(1) neu (2), pan o'r rheoliadau'n diwygio, yn addasu, yn diddymu neu'n datgymhwyso deddfwriaeth sylfaenol, oni fo'r rheoliadau'n cael eu gwneud at ddiben a ddisgrifir yn is-adran (8) o'r adran honno yn unig;

(b) adran 28(3) neu (4), oni fo'r rheoliadau'n cael eu gwneud at ddiben a ddisgrifir yn is-adran (8) o'r adran honno yn unig;

(c) adran 35(1) neu (3) (cynghorau cymuned cymwys: gofynion cymhwystra);

(d) adran 46 (darllediadau electronig o gyfarfodydd);
(e) adran 47(8) (mynychu cyfarfodydd awdurdodau lleol);
(f) adran 50 (rheoliadau ynglŷn â chynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol, hysbysiadau sy'n ymwneud â'r cyfarfodydd hynny, etc.);
(g) adran 60(1) (rhannu swydd: swyddi nad ydynt yn swyddi gweithrediaeth o fewn prif gynghorau);
(h) adran 72 (sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig y gwnaed cais amdanynt);
(i) adran 74 (sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig ac eithrio pan wnaed cais amdanynt);
(j) adran 80 (diwygio etc. reoliadau cyd-bwyllgor);
(k) adran 83 (cyd-bwyllgorau corfforedig: atodol etc.);
(l) adran 84(2) (diwygio deddfiadau at ddibenion etc. Rhan 5);
(m) adran 94 (asesiadau perfformiad gan baneli: rheoliadau atodol);
(n) adran 107(3) (datgymhwyso etc. ddeddfiadau mewn perthynas â swyddogaethau prif gyngor sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru etc.);
(o) adran 110(1) neu (2) (diwygio etc. ddeddfiadau a rhoi pwerau newydd mewn perthynas â pherfformiad prif gynghorau a'u llywodraethu);
(p) adran 124 (rheoliadau uno);
(q) adran 131 (rheoliadau ailstrwythuro; ond gweler adran 148 am ddarpariaeth bellach ynglŷn â'r weithdrefn sy'n ymwneud ag offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau ailstrwythuro);
(r) adran 147 (darpariaeth bellach mewn perthynas â rheoliadau uno a rheoliadau ailstrwythuro);
(s) adran 159(6) (diwygio tabl 2 er mwyn newid aelodaeth grŵp rhannu gwybodaeth a'u swyddogaethau penodedig);
(t) adran 173 (darpariaeth ganlyniadol etc.), pan fo'r rheoliadau yn diwygio, yn addasu neu'n diddymu deddfwriaeth sylfaenol (gan gynnwys y Ddeddf hon).

(6) Mae offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan y Ddeddf hon ac nad yw is-adran (4) yn gymwys iddo yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Senedd Cymru; ond nid yw'r is-adran hon yn gymwys i offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan baragraff 9, 10 neu 11 o Atodlen 1 (adolygiadau cychwynnol) yn unig.

(7) Yn is-adran (5), mae "deddfwriaeth sylfaenol" yn cynnwys darpariaeth mewn deddfwriaeth sylfaenol.